O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1241 (Cy. 314)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 48 (Yr Hendy), Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Cyflymder 30 mya a 50 mya Dros Dro) 2021

Gwnaed	*5 Tachwedd 2021*
Yn dod i rym	*11 Tachwedd 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 48 (Yr Hendy), Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Cyflymder 30 mya a 50 mya Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Tachwedd 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 11 Tachwedd 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Tachwedd 2021

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 30 mya dros dro

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 82 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 37.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o'r gyffordd honno.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-

orllewin o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 500 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 37.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 200 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.